**Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd 14eg Ionawr, 2019 i drafod y gyllideb**

## IS-BWYLLGOR ARIANNOL

**Cyfarfu'r Is-bwyllgor Ariannol** yn gynharach ar y noson pryd 'roedd Y Cynghorwyr Glenys Williams (Cadeirydd), David Brunelli, Ifor Owen a Glyn Roberts yn bresennol.

Wrth drafod y gyllideb cadwyd sylwadau'r BDO mewn cof ac hefyd e-bost gan Mel abOwain o Un Llais Cymru o dan pa adrannau o'r Ddeddf 'roedd gan y Cyngor hawl i gyfrannu – bydd y wybodaeth yma yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol.
Hefyd derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru fod hawl gan y Cyngor i gyfrannu yr uchafswm o £8.12 am bob etholwr ym mlwyddyn 2019/20 ac yn dilyn gair a Mr. Raymond Harvey, Swyddog Etholiadol, Cyngor Gwynedd, nifer yr etholwyr ar gyfer Cymuned Botwnnog oedd 730 ar 1af Rhagfyr, 2018.
O'r daenlen gyflwynwyd sylwyd fod £8,106.35 yn y cyfrif cyfredol ym mis Ionawr gyda'r gwariant a ragwelwyd i fyny i 31ain Mawrth, 2019, yn £2,003.69, oedd yn gadael amcangyfrif o falans o £6,102.66,
Cyflwynwyd hefyd daenlen o wariant ragwelir am y flwyddyn 2019/20 a byddai'r costau oddeutu £3,352.90 o'i gymharu a'r flwyddyn ariannol bresennol, ond nid oedd cyfraniadau ariannol na unrhyw wariant na ragwelwyd wedi ei gynnwys.

Nododd yr Is-bwyllgor hefyd fod yr arian yng nghyfrif y fynwent, sef £949, yn prinhau gan nad oes unrhyw gyfraniad ariannol yn cael ei dderbyn gan deuluoedd y rhai sydd yn gorwedd yno. Eleni ni fu yr un gladdedigaeth yn y Fynwent felly ni dderbyniwyd unrhyw daliadau. Sylwyd mai £337.14 fyddai'n weddill yng nghronfa'r fynwent yn dilyn talu'r Ymgymerwr Barbio, ac felly ni fyddai modd i'r Cyngor ymgymryd a'i barbio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Trafodwyd y gyllideb a **phenderfynwyd argymell** i'r Cyngor:

a) Dderbyn yr adroddiad uchod.
b) Glynu at yr un praesept a'r flwyddyn ariannol yma sef £5,500.
c) Trosglwydd £1,000 i Gronfa'r Fynwent er cyfarfod a'r costau barabio a.y.
d) Penodi Luned Fon Jones, Rheolwr Archwilio, Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, fel Archwiliwr Mewnol i'r Cyngor.

**Trafodwyd adroddiad** yr Is-bwyllgor a phenderfynwyd gweithredu'n unol a'r argymhellion.